# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 14 Mawrth 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Merfyn Parry, Bill Tasker a/ac Huw Williams. Roedd y Cynghorwyr Ray Bartley, Bill Cowie, Bobby Feeley, David Simmonds a/ac David Smith yn bresennol fel Sylwedyddion

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Cydlynydd POVA (NT), Cynrychiolydd y Grŵp Cludiant Rhanbarthol (TAITH) (IPJ), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies a/ac Dewi Owens

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnus ag unrhyw fusnes yr oedd bwriad ei ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 31 Ionawr, 2013.

Materion yn codi:-

5. Diweddariad Perfformiad y CYNLLUN MAWR – eglurodd y Cynghorydd J. Butterfield ei bod eto i gyfarfod â chynrychiolwyr o Brosiect Allgymorth y Rhyl. Cytunodd y Cydlynydd Archwilio i anfon manylion cyswllt cynrychiolydd y Prosiect unwaith yn rhagor at y Cynghorydd Butterfield.

7. Darpariaeth Gofal Annibynnol – Comisiynu a Monitro – nid oedd modd i'r Cynghorydd J A Davies fod yn y cyfarfod blaenorol, a holodd a oedd y Cyngor yn monitro'r ddarpariaeth o ofal yn y cartref. Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorydd Davies fod gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd ger bron y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf, ac mae copi ohono yn parhau i fod ar gael ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD – y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

## 5 CYNHWYSEDD Y GWASANAETHAU DIOGELU OEDOLION

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes, a oedd yn rhoi diweddariad ynglŷn â chynhwysedd y Gwasanaeth Diogelu Oedolion i ymdrin â chynnydd posibl mewn atgyfeiriadau, wedi cael ei gylchredeg ynghyd â'r ddogfennaeth ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PGOB) yr adroddiad gan amlygu'r newidiadau fyddai i lwyth gwaith cyffredinol Diogelu Oedolion Diamddiffyn pe bai cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau. Sefydlwyd swydd Cymhorthydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn yn 2010, a chafodd hynny effaith gadarnhaol, ond yn gyffredinol mae'r dull presennol o weithio wedi bod yn anghynaliadwy.

Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen ym mis Mai 2012 i ystyried dulliau gweithio o bob rhan o Gymru a rhannau o Loegr, argymhellion yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn dilyn eu harolygiad o Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych, Mawrth 2010, ac argymhellion yr archwiliad Diogelu Oedolion Diamddiffyn, Mai 2012.

Roedd yr atodiadau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn manylu ar ychydig o'r prif ddata sy'n ymwneud â gwaith diogelu oedolion diamddiffyn o fewn Sir Ddinbych o fis Ionawr 2012 hyd fis Ionawr 2013. Hefyd cafodd manylion yn ymwneud â darparu hyfforddiant eu cynnwys ynghyd ag ystadegau dangosyddion perfformiad, gweithdrefnau diogelu oedolion diamddiffyn, a datblygiadau ar lefel leol a chenedlaethol. Roedd Atodiad 7 yn manylu ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd i'r model ar gyfer rheolaeth diogelu oedolion yn y Sir i'r dyfodol.

Bu ymateb gan Swyddogion i'r pryderon canlynol a leisiwyd gan yr Aelodau:-

- Cyhyd ag y bo'n bosibl, roedd taflenni a ddosbarthwyd ar ran Fforwm Diogelu Oedolion Diamddiffyn Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys rhif ffôn anghywir i drigolion Sir Ddinbych ei ddefnyddio i adrodd am ddigwyddiadau honedig wedi cael eu galw'n ôl er mwyn cynnwys y rhif ffôn cywir, a chafodd y rhif cywir ei restru ar eu gwefan. Cytunodd y Cydlynydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn i wirio a gafodd y daflen ei chynnwys yn rhan o'r pecyn Gofalwyr a ddosbarthwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) a darparu ateb i'r Cynghorydd J.A. Davies.

- Rhoed gwybod i'r Aelodau fod y ddarpariaeth hyfforddi i weithwyr gofal yn cael ei monitro trwy'r broses monitro contractau, a bod gan asiantaethau gofal gyfrifoldeb, trwy eu prosesau sicrhau ansawdd, i sicrhau fod gweithwyr gofal yn ffit ac yn addas i ymgymryd â'u dyletswyddau. Eglurwyd na ellid cynnal y broses monitro staff gofal yng nghartrefi defnyddwyr gwasanaeth heb ganiatâd y defnyddiwr gwasanaeth.
- Mewn ymateb i awgrym ynglŷn â p'un ai y gellid defnyddio dull gweithredu 'siopwr cudd' fel teclyn i fonitro'r ddarpariaeth gofal, dywedodd y PGOB fod y Ganolfan Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd yn ymchwilio i ddull o'r fath fel teclyn gwerthuso posibl.
- Roedd y broses o asesu anghenion gofal yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau gofal i'w cyflwyno i'r asiantaeth briodol a fyddai'n darparu gweithiwr gofal wedi'i hyfforddi'n briodol i ymgymryd â'r dyletswyddau a nodwyd.
- Mynegwyd pryderon bod honiadau wedi eu gwneud fod 31% o ofalwyr cyflogedig wedi bod yn gyfrifol am achosi camdriniaeth yn ystod 2012/13. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd a hynny ar sail asesiad risg blynyddol.
- Cyfeiriwyd at yr angen, i wneud cofnod o'r asesiadau sydd wedi eu cynnal ar gael er gwybodaeth, ac eglurodd y PGOB y gellid darparu'r wybodaeth hon.
- Amlinellwyd manylion ynglŷn â'r ddarpariaeth hyfforddi a'r broses hyfforddi gan y PGOB. Amlygodd hefyd y targedau hyfforddi cenedlaethol ar gyfer staff gofal a oedd yn cynnwys elfen ynglŷn â diogelu.
- Mewn ymateb i bryderon gan y Cynghorydd E.A. Jones ynglŷn â nifer uchel yr honiadau am gamdriniaeth sy'n cael eu tynnu'n ôl a'r posibilrwydd fod trothwyon y meini prawf wedi cael eu gosod yn rhy uchel, cadarnhaodd y Cydlynydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn y byddai asesiadau risg yn cael eu cynnal yn yr amgylchiadau hyn. Cyfeiriodd y PGOB at y broses ymchwilio, y canllawiau cenedlaethol priodol a'r trothwyon, ac at hawl y defnyddiwr gwasanaeth unigol i wrthod cymorth.
- Ymatebodd y PGOB i'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau a darparu manylion ynglŷn â Pholisi Chwythu Chwiban y Cyngor a'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu i chwythwyr chwiban. Eglurodd y CCMLl fod y Polisi'n cael ei adolygu ac y byddai gofyn i unrhyw staff adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â diogelu. Bydd drafft terfynol y Polisi Chwythu Chwiban yn cael ei gyflwyno ger bron y Cyngor i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â chanran y digwyddiadau honedig sy'n ymwneud â chamdriniaeth yn y sector anableddau dysgu, cafwyd gwybod gan y Cydlynydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn fod nifer y digwyddiadau'n dueddol o fod yn isel, ond cytunodd i ddarparu'r wybodaeth berthnasol i'r Cynghorydd J.R. Bartley.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd cadarnhaodd y CC:MLl y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Cynghorwyr J.A Davies, E.A. Jones a'r PGOB i drafod y pryderon sydd ganddynt mewn perthynas â threfniadau monitro gofal yn y cartref. Cytunwyd y bydd adroddiad ynglŷn â goblygiadau Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) mewn perthynas â diogelu a diogelu oedolion diamddiffyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, ac y dylai'r adroddiad hefyd gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn ag ymweliadau rota a manylion ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â phryderon a godwyd mewn perthynas â monitro gofal yn y cartref.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor -

(a) dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad yn amodol ar y materion a godwyd gan yr Aelodau i'w trafod yn y cyfarfod y cytunwyd ei gynnal rhwng yr Aelodau a swyddogion,
(b) gydnabod pwysigrwydd bod â dull gweithio corfforaethol tuag at Ddiogelu Oedolion Diamddiffyn a bod y Cyngor â chyfrifoldeb i edrych ar hyn fel prif faes blaenoriaeth,
(c) y bydd adroddiad ynglŷn â goblygiadau Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) mewn perthynas â diogelu a diogelu oedolion diamddiffyn yn cael ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor yng nghyfarfod 25 Ebrill 2013, a bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn ag ymweliadau rota a manylion ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â phryderon a godwyd mewn perthynas â monitro gofal yn y cartref.

## 6 FFIOEDD GOFAL PRESWYL 2013/14

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Busnes, oedd yn darparu diweddariad ynglŷn â Methodoleg Gosod Ffioedd Cartrefi Gofal Rhanbarthol ac effaith y costau ar yr Awdurdod, wedi cael eu cylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PGOB) at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn flaenorol a oedd yn egluro'r fethodoleg newydd, y broses y byddid yn ei dilyn a'r goblygiadau o ran cost. Ailedrychwyd ar y fethodoleg a chymhwyswyd cynnydd chwyddiant i elfennau o fewn y ffioedd. Roedd y cynnydd yn amrywio rhwng 1.8% ar gyfer cyflogau a 9% ar gyfer costau ynni, ac ar gyfartaledd byddai'r cynnydd mewn ffioedd oddeutu 2.4%.

Roedd Swyddogion Cyllid o Gynghorau Sir Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych wedi ystyried chwyddiant ac wedi cyfeirio at y cais blynyddol oddi wrth y Fforwm Gofal. Roedd y swyddogion wedi gweithio'n unigol gyda Phenaethiaid Gwasanaeth eu hawdurdodau eu hunain i gyfrifo costau'r cynnydd yn y ffioedd ac effaith hynny ar y gyllideb, a manylid ar yr effaith ar ffioedd safonol yn yr adroddiad. Nid oedd y ffioedd safonol a ddyfynnir ar gyfer Cartrefi Nyrsio yn cynnwys cyfraniad y GIG a oedd wedi ei osod ar hyn o bryd ar £120.56 yr wythnos. Cafwyd cadarnhad fod y nifer y bobl mewn cartrefi gofal wedi gostwng wrth i'r Cyngor barhau i fod yn llwyddiannus wrth ddarparu darpariaeth amgen yn y gymuned.

Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CC:MLl) cystal yw'r dull gweithio systematig sydd wedi ei fabwysiadu ac sydd yn ymgorffori'r fethodoleg gyffredin a ddefnyddir gan bob Awdurdod. Eglurodd y daethpwyd ar draws problemau'n flaenorol wrth fynd ati i ddangos tegwch y costau, ac roedd teimlad y byddai angen i ddarparwyr gwasanaeth archwilio'r dull o gyflenwi a darparu gwasanaeth er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion y dyfodol. Mewn ymateb i bryderon gan y Cynghorydd Butterfield mewn perthynas â strwythur cyflogau staff a gyflogir mewn Cartrefi Preifat, eglurodd y CC:MLl fod adeiladwaith y ffioedd yn creu tybiaeth ynglŷn â lefelau'r cyflog sy'n cael ei dalu. Eglurodd pe byddai tystiolaeth o

fethiant i gyrraedd y lefel sgiliau angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth byddai hyn yn arwain at ddilyn camau yn ymwneud â chontractau a rheoleiddio.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, eglurodd y PGOB y byddai'r angen am Gartrefi Gofal Preswyl yn parhau, a chafwyd cadarnhad ganddo fod darparu tri chartref gofal yn ychwanegol wedi ei nodi yn y Cynllun Corfforaethol. Cafwyd gwybod ganddo hefyd, tra gallai fod yn ddefnyddiol, gallai defnyddio system o ddyfarnu 'sêr graddio/sgorio' fod yn gostus i awdurdodau lleol oherwydd yn ei brofiad yntau byddai'r cartrefi sydd wedi eu graddio uchaf hefyd yn codi ffioedd uwch. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies, darparodd y PGOB fanylion yn ymwneud â dosbarthiad y gofynion ar gyfer darpariaeth gofal iechyd a'r costau cysylltiedig. Amlinellodd hefyd y farn glinigol a fynegir yn genedlaethol mewn perthynas ag anableddau dysgu a chyfeirio at ganllawiau darpariaeth gofal iechyd, gan gyfeirio yn benodol at arwyddocâd nodweddion ymddygiad cymhleth. Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn:-

(a) derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac yn
(b) parhau i gefnogi'r dull gweithio rhanbarthol o ran gosod ffioedd fel y cytunwyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2012.

Gyda chytundeb y Pwyllgor, gan fod yr Aelod Arweiniol eisoes yn bresennol, newidiodd y Cadeirydd drefn y rhaglen ar y pwynt hwn.

## 7 GWASANAETH RHANBARTHOL BWRIEDIG I GYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG

Roedd copi o adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CC:UECh), a oedd yn cyflwyno'r achos busnes llawn dros sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng (GRhGRhA) ac yn ceisio sylwadau ynglŷn â'r argymhellion perthnasol, wedi ei gylchredeg ynghyd â phapurau'r cyfarfod.

Datganodd y Cynghorydd D.I. Smith, yr Aelod Arweiniol â chyfrifoldeb am y Gwasanaeth, gysylltiad personol a rhagfarnus â'r eitem hon gan adael y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

Eglurodd y CC:UEChi i 6 Chyngor Gogledd Cymru ymgymryd â gwaith i werthuso buddion sefydlu GRhGRhA. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith sydd wedi ei gyflawni ac yn amlinellu argymhellion yr achos busnes terfynol dros sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol a fydd yn cael ei gyflwyno ger bron y Cabinet ym mis Mawrth 2013. Roedd crynodeb o'r trefniadau presennol wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1.

Roedd Prif Weithredwyr y chwe Chyngor wedi comisiynu gwaith i ddatblygu a phrofi achos busnes dros wasanaeth sengl, gydag is dimau rhanbarthol, a phresenoldeb swyddog o fewn pob Awdurdod i sicrhau arbenigedd a gwybodaeth leol a pharhad gwasanaeth lleol. Roedd y Compact rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yn argymell y dylai cynllunio rhag argyfwng fod yn wasanaeth cydweithio

rhanbarthol ac mae'r achos busnes terfynol, Atodiad 2 yr adroddiad, wedi ei seilio ar ddadansoddiad llawn o gostau a buddion sefydlu GRhGRhA. Roedd argymhelliad i fabwysiadu Gwasanaeth Rhanbarthol gyda: -

- Strwythur isranbarthol - dwy ganolfan yn gyfrifol am 3 Chyngor yr un
- Y naill ganolfan yn cael ei harwain gan Reolwr Rhanbarthol a'r llall gan Ddirprwy
- Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng ym mhob Awdurdod Lleol
- polisïau, prosesau a chynlluniau cyffredin ac adnoddau wedi eu rhannu o fewn un strwythur rheoli.

Manylai'r adroddiad ynglŷn â chyfrifoldebau'r swyddog lleol a swyddogion y canolfannau isranbarthol, a byddai'r GRhGRhA yn cael ei gomisiynu gan fwrdd gweithredol o swyddogion comisiynu, fyddai a throsolwg drosto. Roedd yr achos busnes yn nodi y byddai'r model newydd yn cynnig rhagor o wytnwch, arbenigedd a chysondeb amgenach, modd o rannu arfer da, a chynhwysedd a gallu gwell. Byddai'n ehangu ar y cyswllt gyda phrif ymatebwyr eraill trwy'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ac yn cynnig rhagor o gynhwysedd ar gyfer gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth ledled pob Awdurdod Lleol i gryfhau trefniadau ymateb. Roedd y cynigion yn awgrymu cyfanswm arbedion o hyd at £75,000 am 10% o'r gost, gydag arbedion pellach posibl wrth fod yn dyblygu llai.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnig £35k o'r Gronfa Wella i roi cymorth i Ogledd Cymru reoli'r newid i fod yn Wasanaeth Rhanbarthol, gyda Chyngor Sir y Fflint yn ymddwyn fel Awdurdod Arweiniol ar gyfer y prosiect.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Eglurodd y CC:UECh y byddai hyblygrwydd a lefelau cyfathrebu yn gwella wrth sefydlu GRhGRhA. Dylai hyn wella'r trefniadau o safbwynt Sir Ddinbych, gan y byddai un swyddog wedi ei leoli yn y Sir o dan y Gwasanaeth newydd bwriedig. O dan y drefn bresennol, roedd yr holl swyddogion ar gyfer Sir Ddinbych wedi eu lleoli yn Sir y Fflint.

- Dywedwyd wrth yr aelodau y cawsai unrhyw ddigwyddiad mawr ei reoli ar sail Gogledd Cymru. Cafwyd cadarnhad fod cynlluniau ymateb ac adfer yn eu lle ac y byddai gwasanaethau Sir Ddinbych yn rhan o'r broses.

- Cafwyd cadarnhad gan y CC:UECh na fyddai sefydlu GRhGRhA yn disodli'r cynlluniau adfer presennol, ond yn hytrach yn cryfhau ar y trefniadau hynny ac yn gwella ar y gwytnwch sydd ei angen i'w rhoi ar waith.

- Eglurodd y swyddogion na fyddai sefydlu'r GRhGRhA yn cynhyrchu arbedion sylweddol, a chadarnhau na fyddai lleihad sylweddol o ran adnoddau staffio.

Roedd y rhesymau y seiliwyd yr argymhellion arnynt dros sefydlu ac ymuno â GRhGRhA, rhai a fydd yn cael ei rhoi ger bron y Cabinet, wedi cael eu hamlinellu yn yr adroddiad ynghyd ag amserlen y prosiect. Byddai gofyn i'r Cabinet ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol, i gymeradwyo trefniadau manwl y newid at y gwasanaeth newydd ac ymgymryd â'r holl dasgau sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu'r gwasanaeth newydd.

Roedd crynodeb o'r broses ymgynghori a gynhaliwyd a manylion unrhyw oblygiadau ariannol neu risgiau posibl wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Simmonds, cytunodd y CC:UECh i geisio eglurhad mewn perthynas â chynnwys Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y

Badau Achub yn rhan  o'r broses ymgynghori ar gyfer y GRhGRhA bwriedig.  O fod wedi ystyried yr adroddiad a'r achos busnes terfynol dros sefydlu'r Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng bwriedig, yn amodol ar gadarnhad y bydd ymgynghori, wedi neu yn cael ei gynnal â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ynglŷn â'r cynigion, a chyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gwytnach i drigolion Sir Ddinbych **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wneud argymhelliad i'r Cabinet:-

*(a) Eu bod yn mabwysiadu'r achos busnes terfynol i sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng ar y sail sydd wedi ei nodi ym mharagraff 4.13 yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 14 Mawrth 2013, a*

(b) *bod awdurdod i gymeradwyo trefniadau manwl y newid at y gwasanaeth newydd ac i ymgymryd â'r holl dasgau sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu'r gwasanaeth newydd yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol.*

**RHAN II**

**EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100a(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 ac 15 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

## 8 TRAWSNEWID CLUDIANT – PROSIECT CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CLUDIANT TEITHWYR

Roedd adroddiad cyfrinachol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CC:UECh) a oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma mewn perthynas â chreu uned integredig sengl ar gyfer darparu gwasanaethau cludiant teithwyr yng Ngogledd Cymru ac yn cyflwyno'r achos busnes amlinellol dros ei chreu, wedi cael ei gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Croesawyd Mr Iwan Prys Jones, Cynrychiolydd y Grŵp Cludiant Rhanbarthol (TAITH) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Eglurodd y CC:UECh fod y Prosiect Cludiant Teithwyr Rhanbarthol bellach wedi cyrraedd y cam o gyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac y byddai'r Cabinet yn ystyried p'un ai i gymeradwyo symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Llawn dros y Dewis a Ffefrir neu beidio.  Roedd Gweithgor o reolwyr cludiant o bob un o Awdurdodau Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth TAITH, a gafodd ei hwyluso'n allanol, wedi datblygu Achos Busnes Amlinellol gan gynhyrchu Dewis a Ffefrir er mwyn rhoi ystyriaeth bellach iddo, a cheisid cymeradwyaeth i ddatblygu'r Dewis a Ffefrir yn Achos Busnes Llawn i'w roi ar waith pe profid yr achos a phe câi ei gymeradwyo gan yr Awdurdodau sy'n aelodau.  Roedd adolygiad gan Lywodraeth

Cymru (LIC) ynglŷn â dyfarnu cymorthdaliadau bysiau ledled Cymru i’r dyfodol wedi cynhyrchu nifer o argymhellion, a'r prif un ohonynt oedd y byddai grant ariannu bysiau newydd "Grant Gwasanaethau Cludiant Rhanbarthol" yn ei le o 1 Ebrill, 2013, a byddai hwnnw'n cael ei ddosbarthu trwy gyfrwng y Consortia Cludiant Rhanbarthol.

Sylweddolwyd beth oedd rhychwant y prosiect, a oedd i gynnwys cludiant cyhoeddus, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn gynnar iawn. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y meysydd nad oeddent wedi eu cynnwys o fewn cwmpas y prosiect, ar y prif ffeithiau sy’n berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth bresennol y chwe Awdurdod Lleol ac ar y sail y lluniwyd yr achos dros newid arno. Roedd y pedwar prif Ddewis a ystyriwyd yn ystod datblygu’r Achos Busnes Amlinellol wedi cael eu crynhoi ac roedd copi o’r Achos Busnes Amlinellol wedi cael ei gynnwys yn Atodiad 1, ynghyd â manylion ynglŷn â’r meini prawf yr aseswyd y Dewisiadau yn eu herbyn.

Roedd asesiad yr Achos Busnes Amlinellol wedi adnabod dau ddewis gorau pan aseswyd yn erbyn y meini prawf a oedd wedi eu nodi, ond o ystyried y newidiadau bwriedig diweddar i’r system o ariannu bysiau, dim ond un o’r dewisiadau hyn oedd bellach yn teilyngu cael ei ddatblygu ymhellach yn Achos Busnes Llawn i roi ystyriaeth bellach iddo. Roedd y dewis hwn wedi ei amlinellu yn yr adroddiad. Roedd cydnabyddiaeth i’r ffaith mai’r dewis hwn fyddai’n un mwyaf radical a’r mwyaf cymhleth o’r rheiny oedd wedi cael eu hystyried, fodd bynnag, roedd hefyd yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer gweld gwell canlyniadau ac arbedion yn yr hir dymor.

Byddai’r potensial am arbedion ac effeithlonrwydd yn cael ei dafoli ochr yn ochr â’r cymhlethdod a’r costau cychwynnol posibl wrth i’r Achos Busnes Llawn gael ei ddatblygu. Gellid datblygu ar y dewis yn gynyddrannol, gyda cham cyntaf yn rhoi ystyriaeth i integreiddio gwasanaethau cludiant teithwyr, a bod hynny i’w ddilyn yn hwyrach gan gludiant addysg a chludiant gwasanaethau cymdeithasol. Byddai’r dull gweithio hwn yn cyfuno gyda’r newidiadau sy’n angenrheidiol i reoli rhoi’r dull gweithio newydd o ariannu bysiau ar waith, y tu hwnt i’r cyfnod trosiannol.

Roedd yr amserlen, a ystyrid yn gyraeddadwy ar gyfer y prosiect, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth, wedi cael ei hamlinellu yn yr adroddiad. Derbyniwyd cadarnhad y byddai’r goblygiadau ariannol llawn ar gyfer pob un o’r Cynghorau yn cael ei archwilio yng ngham nesaf y gwaith ac yn cael eu nodi er mwyn caniatáu i benderfyniadau ynglŷn â p’un ai i gyflwyno’r newidiadau neu beidio gael eu gwneud unwaith y bo’r Achos Busnes Llawn wedi cael ei gwblhau a'i ystyried.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Aelodau, eglurodd Prif Weithredwr TAITH y byddai model rhanbarthol integredig sengl yn sicrhau y byddai pob Awdurdod unigol yn cadw rhyw gymaint o atebolrwydd yn narpariaeth eu gwasanaethau penodol eu hunain, tra bônt yn gweithio o fewn fframwaith gyffredinol ledled Gogledd Cymru. Eglurodd fod Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i bob rhanbarth gyflwyno’r trefniadau bwriedig ar gyfer eu hardaloedd.

Cyfeiriodd nifer o Aelodau bod safonau uchel wedi eu gosod a gwaith da wedi ei gyflawni gan y Rheolwr Adain:Cludiant Teithwyr a’i dîm gyda golwg ar ddarpariaeth a rheolaeth cludiant ysgolion o fewn Sir Ddinbych. Cafwyd cadarnhad gan Brif

Weithredwr TAITH y byddai rhai elfennau sy'n ymwneud ag ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod o dan reolaeth yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gellid cynnig a darparu cefnogaeth pe bai diffyg cynhwysedd neu arbenigedd o fewn unrhyw ardal benodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E.A. Jones, eglurodd y CC:UECh fod pwysigrwydd cyfarch materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig wedi cael eu cynnwys yn rhan o'r Achos Busnes. Cafwyd ymateb gan Brif Weithredwr TAITH i bryderon a leisiwyd gan y Cynghorydd M. McCarroll yn cadarnhau fod lle ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd mewn perthynas â chludiant teithwyr ar draws ffiniau, gan gyfeirio'n benodol at gludiant ysgolion, a dywedodd y gellid edrych ar y mater hwn o fewn cylch gwaith y prosiect. Fodd bynnag, byddai penderfyniadau'n ymwneud â'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cludiant ysgolion yn aros o fewn rheolaeth yr awdurdod addysg lleol.

Cafwyd ymateb Prif Weithredwr TAITH i bryderon a leisiwyd gan y Cynghorydd J. Butterfield yn ymwneud ag anferthedd y prosiect. Cafwyd cadarnhad ganddo y gellid cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd ger bron y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mhob un o'r camau datblygu. Cafwyd cadarnhad gan y CC:UECh y byddai hi'n cysylltu gyda'r Cydlynydd Archwilio pan fyddai manylion ynglŷn â'r amserlen ar gael.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor:-

*(a) yn amodol ar y sylwadau uchod, yn gwneud argymhelliad bod y Cabinet yn derbyn yr Achos Busnes Amlinellol a'r dewis a ffefrir a bod y prosiect nawr yn symud yn ei flaen i ddatblygu Achos Busnes Llawn dros sefydlu uned integredig sengl ar gyfer darparu gwasanaethau cludiant teithwyr yng Ngogledd Cymru.*

*(b) yn nodi na fyddai unrhyw benderfyniad i sefydlu uned integredig yn digwydd hyd nes bo'r Cynghorau wedi rhoi ystyriaeth i'r Achos Busnes Llawn a'i gymeradwyo, ac y byddai trefniadau llywodraethu at y dyfodol yn cael eu cyfarch yn ystod cyfnod datblygu'r Achos Busnes Llawn, a*

*(c) bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd i'w harchwilio yn ystod pob un o gamau datblygu'r prosiect.*

**RHAN I**

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, yn gofyn ar i'r Pwyllgor adolygu drafft eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (RhGD) a darparu diweddariad ynglŷn â materion perthnasol, wedi cael ei gylchredeg ynghyd â phapurau'r cyfarfod. Roedd RhGD y Cabinet wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd o'u rhoi ar waith wedi ei gynnwys yn Atodiad 4 yr adroddiad.

Roedd Ffurflen Cynnig, Atodiad 2, a oedd yn ymwneud â swyddogaeth Coleg Glannau Dyfrdwy/Coleg Llysfasi wrth ddarparu addysg o fewn Sir Ddinbych ac mewn partneriaeth â'r Cyngor, wedi cael ei gyflwyno i gael ei ystyried gan y Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau i gynnwys yr eitem hon yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer mis Gorffennaf, 2013. Fodd bynnag, gofynnodd yr Aelodau i

hysbysu Pennaeth y Coleg ynglŷn â'r broses Archwilio a gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol:-

- Niferoedd myfyrwyr, llwyddiannau, lefelau cynnydd ac ysgoloriaethau.
- Manylion ynglŷn â chyllid ac adnoddau.
- Sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i datblygu.
- Materion yn ymwneud â chludiant.
- Manylion ynglŷn â bwriadau i'r dyfodol a gweithio mewn partneriaeth.

Eglurodd y Cydlynydd Archwilio ei fod yn disgwyl ymateb mewn perthynas â chais a wnaed i'r Bwrdd Iechyd am adroddiad ynglŷn â Phrostheteg, am ddarpariaeth a chynnal a chadw cymalau artiffisial i oedolion a phlant (gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â mynediad at y gwasanaeth, unrhyw oedi sy'n digwydd neu unrhyw gyfyngiadau sy'n cael ei gosod a gweithdrefnau cwynion) er mwyn rhoi ystyriaeth i hyn yn y cyfarfod nesaf sydd wedi ei amserlennu gyda'r cynrychiolwyr Iechyd ar 10 Mehefin 2013.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

- Aildrefnu'r adroddiad ar y Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, a amserlenwyd yn wreiddiol ar gyfer y cyfarfod hwn, a chynnal y drafodaeth honno yn hytrach yn ystod cyfarfod y Pwyllgor gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ym mis Mehefin 2013. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr Aelodau mewn perthynas â dyfodol Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, ac unrhyw oblygiadau posibl i'r Cyngor Sir ac i ddyfodol Ysbyty Glan Clwyd, cafwyd cadarnhad y byddai unrhyw faterion neu bryderon yn cael eu codi yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu gyda BIPBC ym mis Mehefin.

- Cytunodd yr Aelodau i ohirio'r eitem ynglŷn â Chydweithio Rhanbarthol ym maes Datblygu Economaidd hyd fis Medi 2013, pryd mae disgwyl y byddai rhagor o fanylder ar gael.

- Yn dilyn penderfyniad gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA), ar 7 Mawrth, 2013, cytunwyd y byddai'r eitem fusnes sy'n ymwneud ag Asedau Treftadaeth a'r Celfyddydau yn trosglwyddo o Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Cymunedau i eiddo'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i'w hystyried ym mis Rhagfyr 2013.

- Cytunodd y Pwyllgor, pe bai'r Cabinet yn cytuno i symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Terfynol (ABT) ar gyfer Prosiect Cydweithio Rhanbarthol Cludiant Teithwyr, y dylid cynnwys yr ABT yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer mis Tachwedd 2013.

Roedd rhestr o bob cynrychiolydd archwilio ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau wedi ei gynnwys yn Atodiad 5 yr adroddiad. Pan wnaed y penodiadau, roedd 'Cwsmeriaid' wedi cael ei gynnwys yn Grŵp Herio Gwasanaeth y Gwasanaethau Addysg a'r Cynghorydd B. Blakeley wedi ei benodi fel y cynrychiolydd ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd 'Cwsmeriaid' bellach yn ffurfio un o saith Blaenoriaeth

Gorfforaethol y Cyngor gogyfer â 2012/17, felly at bwrpasau'r broses o Herio Gwasanaethau roedd 'Cwsmeriaid' wedi cael ei wahanu oddi wrth y Gwasanaethau Addysg. Cytunodd y Pwyllgor y dylai’r Cynghorydd B. Blakeley gael ei enwebu i wasanaethu fel eu cynrychiolydd ar Grŵp Herio Gwasanaeth ‘Cwsmeriaid’. Cytunwyd hefyd y dylid gwahodd y Cynghorydd P. Penlington i wasanaethu ar Grŵp Herio Gwasanaeth y Gwasanaeth Adnoddau Dynol (AD) Strategol pan fydd yn cymryd ei le ar y Pwyllgor yn y dyfodol agos.

***PENDERFYNWYD***

(a) yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a
(b) bod y Pwyllgor yn enwebu’r Cynghorydd B. Blakeley i wasanaethu ar y Grŵp Herio Gwasanaeth y Gwasanaeth Cwsmeriaid, ac yn gwahodd y Cynghorydd P. Penlington i wasanaethau fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Herio Gwasanaeth Adnoddau Dynol Strategol.

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Darparodd Aelodau’r Pwyllgor y manylion canlynol mewn perthynas ag amryw o Fyrddau a Grwpiau’r Cyngor:-

Dywedodd y Cynghorydd J.A. Davies y bydd yn mynychu cyfarfod Gofalwyr Cymru Gyfan yng Nghaerdydd a chyfarfod Bwrdd Prosiect A Driphlyg.

Roedd y Cynghorydd E.A. Jones wedi mynychu cyfarfod o Grŵp Tasg a Gorffen yr Adolygiad Bwyd ble cafodd dwy flaenoriaeth eu hadnabod a bydd y rheiny’n cael eu datblygu ymhellach mewn cyfarfodydd i’r dyfodol. Nodwyd safonau uchel Sir Ddinbych mewn perthynas â’r broses gaffael. Roedd y Cynghorydd Jones hefyd wedi mynychu cyfarfod ynglŷn â’r Ddarpariaeth Dai ar gyfer Llety Arbenigol.

Roedd y Cynghorydd M. McCarroll wedi mynychu cyfarfod Asiantaeth Mentergarwch Sir Ddinbych, ac roedd o’r farn i'r cyfarfod fod yn un nodedig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiadau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm